**COVID-19 Update: 16th April**
Here is the latest COVID-19 round-up of the day from Cardiff Council, covering: Cardiff residents are being urged to continue to recycle their waste; almost £85,000 has been pledged to the Cardiff Food Appeal; and staff at Cardiff High School have come together to support the NHS.

**'Please continue to recycle your waste in the green bags provided'**

Cardiff residents are being urged to continue to recycle their waste during the COVID-19 pandemic.

Most residents are already doing so, but some are asking why they should continue to separate their recyclables into green bags when the city's recycling waste is being taken to Viridor's Energy Recovery Facility at Trident Park during the outbreak.

There are four key reasons why we need you to continue to recycle:

**1.**
As soon as the crisis is over - normal recycling operations will resume. If you are recycling as normal we will be able to switch back with minimum fuss. Please don't break the recycling habit. Once broken it's harder to resume and we could switch back to normal service sooner than you might expect.

**2.**
There won't be enough room in your black wheelie bins for your general waste and your recyclable waste. Please keep them separate and identifiable as different types of waste.

**3.**
Sending the majority of the city's waste to Viridor's facility is the safest option for residents and our crews during the ongoing crisis

**4.**
The Energy Recovery Facility does recycle a proportion of waste which is put into the plant. This is through recycling the two residues which are produced through the process, which are bottom ash (materials that do not burn) and Fly Ash (residues collected through the flue gas treatment.)

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23653.html

**City entrepreneur boosts Cardiff Food Appeal**

Almost £85,000 has been pledged to the Cardiff Food Appeal as the city comes together to support people in need during the COVID-19 crisis.

A donation of £3,000 from Cardiff-born entrepreneur and investor, Alan Peterson has boosted the pot this week after Admiral and two anonymous benefactors in the city kickstarted the appeal last week.

Council Leader, Cllr Huw Thomas, wrote to leading companies across Cardiff asking them to support the fund last week and a new donation scheme has been set up on the Council's website www.cardiff.gov.uk/foodappeal where anyone can make a donation.

Mr Peterson said: "As a family we are actively involved in a number of large charities but right now charity starts at home - and that is Cardiff. As such we are delighted to support the Cardiff Council Leader's Appeal."

The appeal is the latest initiative to ensure people experiencing financial difficulties buying food and those who aren't able to shop for themselves at this time have provisions. All of the money raised from the appeal will be spent on food and essentials.

To make a donation, please visit:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/volunteering/Pages/default.aspx

Thank you.

**Staff at Cardiff High School have come together to support the NHS**

Design & Technology teachers Liam Powell and Jon Martlew wanted to do something to help and have been manufacturing up to 300 visors per day using school materials.

The school's PTA have also been supporting the scheme by creating a funding page which has raised in excess of £10,000 so that Liam and Jon can purchase further materials.

This will continue while the crisis lasts and the school would like to extend a massive thank you to everyone who has supported them so far.

More information can be found here:
https://www.gofundme.com/f/dbx3b-visors-for-the-nhs

## Diweddariad COVID-19: 16 Ebrill

Dyma'r crynodeb COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: mae trigolion Caerdydd yn cael eu hatgoffa i barhau i ailgylchu eu gwastraff; mae bron i £85,000 wedi ei addo i Apêl Bwyd Caerdydd; ac mae staff yn Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi dod ynghyd i gefnogi'r GIG.

**'Parhewch i ailgylchu gwastraff yn eich bagiau gwyrdd'**

Mae trigolion Caerdydd yn cael eu hatgoffa i barhau i ailgylchu eu gwastraff yn ystod y pandemig COVID-19.

Mae'r rhan fwyaf o drigolion eisoes yn gwneud hynny, ond mae rhai yn gofyn pam y dylen nhw barhau i wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy i fagiau gwyrdd pan fo gwastraff ailgylchu'r ddinas yn mynd i gyfleuster adfer ynni Viridor ym Mharc Trident yn ystod y pandemig.

Mae pedwar prif reswm pam mae angen i chi barhau i ailgylchu:

**1.**
Cyn gynted ag y bydd yr argyfwng wedi dod i ben - bydd y gwaith ailgylchu arferol yn ailddechrau. Os ydych yn ailgylchu yn ôl yr arfer byddwn yn gallu newid yn ôl heb fawr ffwdan. Peidiwch â thorri'r arfer ailgylchu. Wedi i'r arfer gael ei thorri, mae'n anodd ailddechrau, ac mae'n bosibl y byddwn yn dychwelyd i'r drefn arferol yn gynt nag y byddech yn ei ddisgwyl.

**2.**
Ni fydd digon o le yn eich biniau olwynion du ar gyfer eich gwastraff cyffredinol a'ch gwastraff ailgylchadwy. Cadwch nhw ar wahân fel bod modd gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o wastraff.

**3.**
Anfon y rhan fwyaf o wastraff y ddinas i gyfleuster Viridor yw'r opsiwn mwyaf diogel i drigolion a'n criwiau yn ystod yr argyfwng

**4.**
Mae'r Cyfleuster Adfer Ynni yn ailgylchu cyfran o'r gwastraff sy'n cael ei gyflwyno yno. Gwneir hyn drwy ailgylchu'r ddau waddod sy'n cael eu cynhyrchu drwy'r broses, sef Lludw Gwaelod (deunyddiau nad ydynt yn llosgi) a Lludw Ffliw (gweddillion a gesglir drwy'r driniaeth nwy ffliw).

Derllanwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23652.html

**Entrepreneur o'r ddinas yn rhoi hwb i Apêl Bwyd Caerdydd**

Mae bron i £85,000 wedi ei addo i Apêl Bwyd Caerdydd wrth i'r ddinas ddod ynghyd i gefnogi pobl sydd mewn angen yn ystod yr argyfwng COVID-19.

Yr wythnos hon, mae rhodd o £3,000 gan yr entrepreneur a'r buddsoddwr Alan Peterson sy'n frodor o Gaerdydd, wedi rhoi hwb i'r pot, yn dilyn rhoddion gan Admiral a dau gymwynaswr di-enw yn y ddinas a roddodd gychwyn cryf ar yr apêl yr wythnos diwethaf.

Ysgrifennodd Arweinydd y Cyngor, Huw Thomas, i gwmnïau blaenllaw ledled Caerdydd yn gofyn iddynt gefnogi'r gronfa yr wythnos diwethaf, ac mae cynllun

rhoddion newydd wedi'i drefnu ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/apelbwyd lle gall unrhyw berson roddi.

Dywedodd Mr Peterson: "Fel teulu, rydym yn cymryd rhan weithredol mewn nifer o elusennau ond ar hyn o bryd mae'r gwaith elusennol yn dechrau gartref - a hynny yw Caerdydd. Rydym ni felly wrth ein boddau yn cefnogi Apêl Arweinydd Cyngor Caerdydd."

Yr apêl yw'r fenter ddiweddaraf i sicrhau bod pobl sy'n cael anawsterau ariannol wrth brynu bwyd a phobl nad ydynt yn gallu siopa ar eu cyfer eu hunain ar hyn o bryd yn cael bwydydd. Bydd yr holl arian a godir drwy'r apêl yn cael ei wario ar fwyd a hanfodion.

I roddi, ewch i:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/gwirfoddoli/Pages/default.aspx

Diolch.

**Mae staff yn Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi dod ynghyd i gefnogi'r GIG**

Roedd yr athrawon Dylunio a Thechnoleg, Liam Powell a Jon Martlew am wneud rhywbeth i helpu ac maent wedi bod yn gweithgynhyrchu hyd at 300 o fisorau y dydd gan ddefnyddio deunyddiau'r ysgol.

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol hefyd wedi bod yn cefnogi'r cynllun drwy greu tudalen codi arian sydd wedi codi dros £10,000 fel y gall Liam a Jon brynu rhagor o ddeunyddiau.

Bydd hyn yn parhau tra bod yr argyfwng yn para a hoffai'r ysgol estyn diolch enfawr i bawb sydd wedi eu cefnogi hyd yn hyn.

Mae rhagor o wybodaeth yma:
https://www.gofundme.com/f/dbx3b-visors-for-the-nhs